

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-2024

Sut mae'r safonau'n cael eu bodloni, a sut mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a thrwy'r Gwasanaeth yn cael eu hyrwyddo a'u hwyluso.

**Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024**

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg | This publication is available in English

# Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Trosolwg

Dyma adroddiad blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023 - 2024. Mae'n gwerthuso ein cydymffurfiaeth â'r Safonau, a'r ffyrdd y mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi cael eu hyrwyddo a'u hwyluso, gan sicrhau nad oedd yr iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y flwyddyn. Fe'i paratowyd yn unol ag Atodlen 4 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, i fodloni gofynion safonau 158, 164 a 170.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn www.tangogleddcymru.llyw.cymru. Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Swyddog Iaith Gymraeg,
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

**Croesewir galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.**

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

### Dogfennau cysylltiedig

Mae ein hysbysiad cydymffurfio o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar gael ar ein gwefan.

# Cynnwys


Cyflwyniad....4

Cefndir....5

Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg....6

Safonau Cyflenwi Gwasanaeth:....6

Safonau Gweithredol:....8

Apwyntiadau a dyrchafiadau diweddar....10

Monitro, hyrwyddo, a datblygu'r Gymraeg o fewn y gwasanaeth....11

Datblygiad Iaith Gymraeg....15

Cyfleoedd ar gyfer gwella yn y dyfodol....15







# Cyflwyniad

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein ardal gwasanaeth a'r amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol o fewn ein cymunedau. Rydym wedi ymrwymo i'n dyletswydd gyfreithiol a moesol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg wrth gynnal ein busnes.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar ATAGC i gydymffurfio â Safonau sy'n ymwneud â hyrwyddo, codi ymwybyddiaeth, a hwyluso'r Gymraeg o fewn ein gwasanaeth tân ac achub.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gwerthoedd craidd ac mae'n hanfodol i'n hegwyddorion Pobl, Atal, ac Amddiffyn, sy'n rhan o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 – 2029. Mae'r egwyddor 'Ein Pobl' yn ymrwymo i recriwtio a datblygu gweithlu dwyieithog i gynrychioli demograffig ein hardal. Mae ein hegwyddor 'Atal' yn canolbwyntio ar leihau risgiau i'n cymunedau drwy ymgysylltu â phawb yng Ngogledd Cymru a chynnig dewis iaith yn weithredol. Yn ogystal, mae ein hegwyddor 'Diogelu' yn cynnwys ymgysylltu â busnesau Gogledd Cymru lle mae llawer ohonynt yn cyfathrebu â ni yn Gymraeg.

## Atebolrwydd a Llywodraethu

O fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), mae'r Gymraeg yn cael ei llywodraethu fel rhan o'n strwythur sefydliadol trwy Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg, dan gadeiryddiaeth ein Swyddog Iaith Gymraeg. Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg, aelod o'r adran Cyfathrebu Corfforaethol, yn gyfrifol am weithredu Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth. Mae Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg yn adrodd i'n Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân (DPST). Mae'r DPST yn cymryd yr awenau gweithredol ar yr iaith Gymraeg ac mae ganddo gyfrifoldeb rheoli dros yr adran Gyfathrebu Corfforaethol.

Yn ystod 2023/2024, mae ATAGC wedi parhau gydag ymdrechion i weithredu Safonau'r Gymraeg a'u gofynion. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg; sut rydym yn monitro, hyrwyddo, a datblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth; a'r cyfleoedd ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant ac yna cymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2024.

# Cefndir

Disodlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ddyletswyddau cydymffurfio i awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa rai o'r Safonau, fel y'u rhestrir yn llawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023/24 erbyn Medi 2024 a rhoi cyhoeddusrwydd priodol iddo

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal er mwyn cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog cymunedau, yn erbyn cefndir o dreftadaeth naturiol a diwylliannol arwyddocaol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd tuag at ei staff, y rhan fwyaf ohonynt yn drigolion Gogledd Cymru, ac sydd eu hunain yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain.

Trwy gydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol i warchod treftadaeth ddiwylliannol yr ardal a chwrdd â disgwyliadau'r gymuned leol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

**Mae Cynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gael i'w weld drwy ddefnyddio'r ddolen isod; Safonau'r Gymraeg**

## Safonau'r Iaith Gymraeg

Yn ystod 2023/24, parhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â'r set Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio 30 Medi 2016. Rydym hefyd yn parhau i weithio ar y cyd â grwpiau iaith allanol drwy Swyddog y Gymraeg, yn ogystal â rheoli llywodraethu mewnol yn y Gymraeg drwy'r Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolaeth o bob rhan o'n tân a'n hachub ac mae'n gwasanaethu pwrpas;

- Cydlynu rhwng adrannau ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg
- Craffu a chynnig arweiniad i wella unrhyw agwedd ar ddarpariaeth ddwyieithog y Gwasanaeth
- Cydweithio ar sut i ddatrys unrhyw heriau neu gwynion
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin mor ffafriol â'r Saesneg o fewn y Gwasanaeth.

Mae materion cyfieithu Cymraeg yn cael eu contractio i gwmni allanol er mwyn helpu i gyflawni'r holl rwymedigaethau a osodir gan Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i gydweithio â chydweithwyr yn y ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru a Chyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC) i rannu gwybodaeth am arferion gorau a sicrhau dull safonedig.

# Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

## Safonau Cyflenwi Gwasanaeth:

Gellir gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r Safonau hyn ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Safonau hyn yn ymwneud â'n hwyneb cyhoeddus a sut rydym yn delio â defnyddwyr ein gwasanaeth, boed yn bersonol, dros y ffôn, neu ar-lein, yn ogystal ag unrhyw gyhoeddiadau corfforol neu ar-lein.

Mae trefniadau wedi'u gwneud i fodloni'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau sydd wedi dod i rym gan gynnwys y canlynol:

### Safonau 1,4, 5-7

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ychwanegwyd canllawiau diwygiedig ar y weithdrefn ohebiaeth ddwyieithog gywir at dudalen Gymraeg mewnrwyd y Gwasanaeth, Hwb Tân. Bydd hyn hefyd yn cael ei gynnwys fel rhan o bolisi defnydd mewnol yr iaith Gymraeg newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i helpu i ddarparu'r canllawiau diweddaraf i staff.

### Safonau 8-22

Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r gofyniad i ystyried pwysigrwydd dewis iaith wrth ymdrin â galwadau ffôn gydag aelodau'r cyhoedd. Mae adnoddau wedi cael eu rhannu'n fewnol ar sut i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Mae canllawiau fideo wedi'u diweddaru wedi'u rhannu ar dudalen Gymraeg fewnrwyd y Gwasanaeth, Hwb Tân, a byddant yn cael eu cynnwys yn ein bolisi defnydd mewnol yr iaith Gymraeg newydd. Er nad yw'n brif linellau ffôn, mae gan ein gorsafoedd tân unigol ganllawiau ar ateb y ffôn yn ddwyieithog hefyd, gyda'r pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf.

Mae'r Awdurdod yn parhau i gydnabod gwerth a budd cynnig dewis iaith fel angen mewn argyfwng ac mae'n gweithredu Ystafell Reoli gwbl ddwyieithog yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd (JCC) yn Llanelwy, er nad oes gofyniad statudol i ateb galwadau 999 yn ddwyieithog. Mae penderfyniad yr Awdurdod i fynd y tu hwn i ofynion y Safonau yn cydnabod y manteision o ran diogelwch mewn sefyllfaoedd brys pan mae'n well gan rai galwyr gyfathrebu yn y Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Mae swyddi gwag yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd yn cael eu hysbysebu gydag isafswm gofyniad sgiliau Cymraeg Lefel 4  i sicrhau bod dewis iaith weithredol rhagweithiol yn cael ei gynnig i unrhyw alwr sy'n dymuno siarad Cymraeg.

Cesglir data ar faint o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cysylltu â ni yn Gymraeg, at ddibenion monitro a gwerthuso. Ar 31 Mawrth 2024, cafodd 1,042 o alwadau eu trin yn Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys galwadau 999 ac adroddiadau o losgi dan reolaeth.

Mae argaeledd y gwasanaeth hwn yn cael ei hyrwyddo'n rheolaidd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth ac mewn digwyddiadau cyhoeddus a fynychir er mwyn codi ymwybyddiaeth allanol.

[1] Mae'r safon Gwasanaeth ar gyfer sgiliau Cymraeg Lefel 4 fel a ganlyn: Cynnal sgyrsiau anffurfiol yn y Gymraeg gyda rhuglder, darllen ac ysgrifennu'n rhugl gyda chymorth meddalwedd gramadeg a sillafu er mwyn cywirdeb.

O fewn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd, mae gennym aelodau o staff sy'n gweithredu fel Hyrwyddwyr Cymraeg. Maent yn trefnu sesiynau 'Paned a Sgwrs' cyfrwng Cymraeg yn rheolaidd i'w staff ac i staff ehangach y Gwasanaeth helpu i gynnal proffil y Gymraeg a normaleiddio siarad Cymraeg yn anffurfiol yn y gweithle.




## Safonau 28-32

O ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cyfarfodydd, mae pob gohebiaeth hyrwyddo yn ddwyieithog. Er mwyn hwyluso'r hawl i fynychwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus, mae cyfieithu ar gael ar gyfer pobl ddi-Gymraeg.

Yn ystod ein hymgynghoriad cyhoeddus yn 2023 ar ein cynhaliwyd 17 o gyfarfodydd cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru ac ar-lein, gyda chyfleusterau cyfieithu wedi'u hysbysebu, cyflwyniadau dwyieithog a deunydd gwybodaeth ar gael ym mhob maes.

## Safonau 33,34

Mae hyrwyddo unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus a drefnir gennym yn cael ei wneud mor ddwyieithog, ac mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu hyrwyddo ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi trefnu digwyddiadau fel ein digwyddiadau ymgysylltu fel rhan o'n Hadolygiad or' Ddarpariaeth Frys a diwrnodau agored gorsafoedd tân lle hysbysebwyd a hyrwyddwyd pob digwyddiad gyda chydraddoldeb ieithyddol.

Cynhelir ein cyrsiau 'Biker Down' sydd newydd eu cyflwyno, gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch beiciau modur, yn fisol yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl o fis Ebrill i fis Hydref ac mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth a thrwy gyfrwng tudalen ddwyieithog dynodedig ar y wefan ar gyfer diogelwch beiciau modur. Mae taflenni a phosteri a ddosberthir ledled Gogledd Cymru mewn lleoliadau sy'n boblogaidd gyda beicwyr modur hefyd yn ddwyieithog.

## Safonau 62-64

Mae polisi gwasanaeth yn nodi bod yn rhaid i staff sydd â swyddi sy'n delio â'r cyhoedd yn uniongyrchol fod yn rhugl yn y Gymraeg (sgiliau Lefel 4 ac uwch). Ar 31 Mawrth 2024, roedd gennym 89 aelod o staff yn llenwi'r swyddi dynodedig yma o fewn y Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol (92) o ganlyniad i ailstrwythuro swyddi.

# Safonau Gweithredol:

Gellir gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r safonau hyn ar wefan y Gwasanaeth. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â'n defnydd mewnol o'r Gymraeg. Maent yn gosod dyletswydd arnom i annog defnydd o'r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth ac i gefnogi ein swyddogion a'n cynghorwyr i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith.

Mae trefniadau wedi'u gwneud i fodloni'r Safonau Gweithredol hyn, gan gynnwys y canlynol:


## Safonau 96-101

Mae gan staff yr hawl, sy'n cael eu hyrwyddo a'u cyfathrebu'n rheolaidd yn fewnol, i dderbyn unrhyw ohebiaeth berthnasol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae ffurflenni perthnasol, sy'n ymwneud â'u cyflogaeth ar gael yn ddwyieithog a gellir eu gweld ar ein mewnrwyd Hwb Tân. Cedwir cofnod o iaith ddewisol pob aelod o staff i dderbyn gohebiaeth.

## Safonau 102 -108

Cyhoeddir polisïau newydd a diwygiedig yn fewnol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae'n ofynnol i bob polisi gael asesiad effaith integredig cysylltiedig i ganfod ei heffaith ar y Gymraeg, yn ogystal â nodi a hyrwyddo ffyrdd o greu effaith gadarnhaol ac osgoi effaith negyddol. Mae polisi newydd hefyd yn cael ei ddatblygu ar ddefnydd mewnol y Gymraeg.

## Safonau 125 – 132




O fis Ionawr 2024, mae cyrsiau Cymraeg a ddarperir gan Goleg Cambria wedi bod ar gael yn fewnol i'n staff. Mae ein staff eisoes wedi mynychu cyrsiau a hwyluswyd drwy ein partneriaid Heddlu Gogledd Cymru, fodd bynnag, mae gallu cynnig y cyrsiau hyn o fewn ein Gwasanaeth ein hunain wedi galluogi mwy o staff i fynychu a ci ddysgu termau'r Gwasanaeth iddynt.

Gall staff hefyd gael mynediad i'r deunyddiau hunan-ddysgu sydd ar gael ar ein tudalen Gymraeg fewnrwyd Hwb Tân yn ogystal â derbyn cefnogaeth gan y Swyddog Iaith Gymraeg neu hyrwyddwr iaith Gymraeg.

Cynigir sesiynau sgwrsio, gan gynnwys sesiynau 1-i-1, i hyrwyddo a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith mewn dwy ffordd; wyneb yn wyneb, fel arfer ar gyfer staff gweithredol sy'n ymuno mewn grwpiau. Yn ail, darperir modiwl ar-lein drwy ein platfform 'LearnPro' ar ymwybyddiaeth iaith.

Mae'r gofyniad i gynnwys y Gymraeg ar lofnodion e-bost a negeseuon 'y tu allan i'r swyddfa' yn cael ei hyrwyddo'n fewnol. Mae enghreifftiau ar gael ar ein tudalen Cymraeg fewnrwyd Hwb Tân ynghyd â logos perthnasol.

## Safon 143

Mae cwynion yn cael eu monitro a'u trin gan yr Adran Adnoddau Dynol a'r Uned Cefnogi Busnes. Mae cwynion a llythyrau gwerthfawrogiad yn cael eu hadrodd bob blwyddyn i'r Awdurdod Tân ac Achub.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2023-2024 mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi gweithdrefn gwyno ar ein gwefan ac mae ganddo hefyd bolisi mewnol ar gyfer staff ar sut i godi pryder neu gŵyn.

## Safon 147, 150, 151

Ar 31 Mawrth 2024, roedd 88.2% o'n staff yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg (Lefel 1 ac uwch), gyda 38.6% ohonynt yn siaradwyr rhugl (Sgiliau Lefel 4 a 5). Mae hyn wedi cynyddu o'i gymharu â 37% yn y flwyddyn flaenorol.

At ei gilydd, roedd gan 97.9% o'n staff naill ai record ffurfiol neu hunanasesu am eu sgiliau Cymraeg.

Mae'n bosibl na fyddai staff sydd wedi cael eu cyflogi am lai na 12 mis wedi cael eu hasesu gan fod polisi Gwasanaeth yn golygu bod ganddynt tan ddiwedd eu cyfnod prawf i gyflawni'r lefel sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer eu swydd. Fodd bynnag, ar 31 Mawrth 2024, aseswyd 98.7% o'n staff gyda llai na 12 mis o wasanaeth.

Asesir sgiliau Cymraeg pob aelod newydd o staff naill ai yn gynnar ar ôl neu cyn eu penodiad lle mae rhuglder Cymreig yn rhan o'u rôl, neu'n hwyrach yn ystod eu cyflogaeth. Mae'n ofynnol i staff nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg Lefel 2 o leiaf ddatblygu'r sgiliau hyn yn ystod eu cyfnod prawf. Mae sgiliau Cymraeg yn rhan o'r gofynion prawf.

Mae adnoddau hunan-ddysgu ar gael yn ogystal â chyrsiau hyfforddi pellach os digwydd bod staff yn ei chael hi'n anodd datblygu eu sgiliau.





# Penodiadau a dyrchafiadau diweddar

Mae sgiliau Cymraeg ein staff yn ystod dyrchafiad a recriwtio yn cael eu holrhain er mwyn nodi'r angen am ddatblygu sgiliau.

Yn ystod y cyfnod 2023-24, penodwyd un aelod gweithredol o staff a oedd ar lefel is o ran y sgiliau gofynnol ar gyfer y swydd. Mae'r aelod staff hwn yn derbyn cymorth datblygu sgiliau Cymraeg i gyflawni'r lefel ofynnol erbyn diwedd eu cyfnod prawf.

Mae bob swydd wag sydd wedi'i llenwi ar gyfer y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd lle mae rhugldder Cymraeg yn ofyniad hanfodol, ar yr isafswm gofynnol o Lefel 4.

O fewn ein gwasanaethau corfforaethol, cafodd dwy rôl lle'r oedd angen Lefel 4 rhugldder Cymru eu llenwi yn ystod 2023-24. Cafodd un ei lenwi ar y lefel sgiliau Cymraeg gofynnol, a llenwyd yr ail yn is na'r lefel sgiliau Cymraeg yn dilyn tri ymdrech recriwtio aflwyddiannus. Darperir cymorth i staff sy'n disgyn islaw'r categori gofynnol i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

O fewn rolau arweinyddiaeth y Gwasanaeth, cafwyd dau ddyrchafiad yn ystod y flwyddyn, gydag un aelod o staff yn bodloni'r meini prawf iaith ac un arall yn derbyn cymorth ar sail un i un i ddatblygu eu sgiliau i gyflawni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd.

# Monitro, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth

Mae monitro a hyrwyddo'r Gymraeg ymysg staff yn cael ei gyflwyno'n fewnol mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg i'r cyhoedd hefyd yn cael eu hyrwyddo a'u hamlygu drwy ymgyrchoedd allanol

- Mae cynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg yn cynnig lwfans i aelodau staff sy'n rhan o'r cynllun i wobrwyo eu hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn eu hadrannau neu orsafoedd tân. Lleolir Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg ar draws ardal y gwasanaeth. Maent yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith, i gefnogi staff gydag asesiadau Cymraeg, a hefyd i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg i staff eraill. Mae'n ofynnol i Hyrwyddwyr y Gymraeg gyflwyno ffurflen gorchwyl chwarterol yn nodi eu cyflawniadau er mwyn derbyn eu lwfans ac mae hyn yn rhoi cipolwg ar y gwaith hyrwyddo a wneir rhwng staff.

- Yn gynharach eleni, cwblhaodd tri aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth, gan gynnwys y Dirprwy Brif Swyddog Tân Stewart Forshaw, Rheolwr Ardal Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio a Pherfformio, a'r Cynorthwyydd Gweithredol Lisa Allington, y cwrs Lefel 3 Cymraeg a ddarparwyd gan Heddlu Gogledd Cymru a Choleg Cambria yn llwyddiannus. Rydym bellach wedi sicrhau bod cyrsiau'n cael eu cynnal yn fewnol er mwyn hwyluso staff i allu datblygu eu sgiliau Cymraeg.

- Cafodd Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg eu hannog eleni i ddefnyddio mwy o Gymraeg o fewn eu hadrannau neu orsafoedd tân drwy ddefnyddio'r adnodd gair Cymraeg newydd o'r dydd. Mae bwrdd gwyn yn helpu i hwyluso hyn sy'n annog staff i rannu enghreifftiau o sut mae'r geiriau'n cael eu defnyddio yn y gweithle.




- Mae'r bwletin misol 'Dydd Mercher Cymraeg' yn rhannu gwybodaeth am y Gymraeg i staff, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a sut i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Hefyd wedi'i gynnwys o fewn y bwletin, ceir adran yn atgoffa staff o Safonau'r Iaith Gymraeg a ffyrdd y gallant sicrhau cydymffurfiaeth e.e. llofnodion e-bost dwyieithog ac allan o'r swyddfa. Gan dadansoddi'r data o'r flwyddyn ddiwethaf , mae'n dangos bod y bwletin hwn, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn derbyn 242 o agoriadau unigryw ar gyfartaledd a 169 o gliciau unigryw i wybodaeth bellach sydd wedi'i chynnwys ynddo.

  Yn ogystal, mae cylchlythyr chwarterol 'Tanio Sgwrs' sydd yn Gymraeg ond gyda geirfa Saesneg i gynorthwyo ei ddarllen, yn cael ei anfon at staff sy'n cynnwys gwybodaeth am ein hyrwyddwyr iaith Gymraeg, dysgwyr a siaradwyr newydd yn y gwasanaeth, a gwybodaeth berthnasol eraill.



**Tanio Sgwrs**

Rhifyn 4
Hydref 2023

**Neges gan y Swyddog Iaith Gymraeg**
***A message from the Welsh Language Officer***
**Natalie Jones**

**Helo a chroeso i rifyn Hydref 2023 o Danio Sgwrs.**

Hefyd, cawn wybod mwy am un o'n Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg – Bedwyr, sy'n un o'n Diffoddwyr Tân yng Nghaergybi. Cewch fwy o wybodaeth am yr Hyrwyddwyr wrth ddilyn y ddolen yma - Hyrwyddwyr / Champions

Wrth i chi ddarllen, defnyddiwch y bocs geirfa ar y dde i'ch helpu efo rhai geiriau - os welwch lythyren mewn bracedi () mae'n golygu eu bod wedi treiglo.

Anfonwch unrhyw sylwadau neu awgrymiadau o beth hoffech weld yn y rhifyn yr Gaeaf.

Natalie.jones@tangogleddcymru.llyw.cymru

Hwyl!

**Hi and welcome to the Autumn 2023 edition of 'Tanio Sgwrs'.**

We'll also find out more about one of our Welsh Language Champion Bedwyr – one of our Firefighter's at Holyhead. Find out more about the Champions at this link - Hyrwyddwyr / Champions

As you read the newsletter, use the vocabulary box on the right-hand side to help you with the more unfamiliar words – if you see a letter in brackets () it means the word has mutated.

Please send any comments or suggestions of what you'd like to see in the next Winter issue.

Natalie.jones@northwalesfire.gov.wales

Hwyl!

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**Mae'r rhifyn yma'n cynnwys**

***This edition includes:***

- Beth sydd mew enw
- Digwyddiadau Difyr
- Holi Hyrwyddw
- Yn y Newyddio

- Yn ystod mis Rhagfyr 2023, cymerodd y Gwasanaeth ran mewn [ymgyrch cyfryngau cymdeithasol cenedlaethol](#) i hyrwyddo Diwrnod Hawliau'r Gymraeg a hyrwyddo ein hymrwymiad at ddewis iaith, yn fewnol ac yn ein cymunedau. Roedd ein staff yn ymddangos mewn fideos sy'n cael eu hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at y ffaith bod gan bobl ddewis i'w defnyddio Cymraeg gyda ni wrth dderbyn a defnyddio ein gwasanaethau. Er mwyn hyrwyddo hyn yn fewnol, cynhyrchwyd fideo i dynnu sylw at yr hyn y mae Safonau'r Gymraeg yn ei olygu i'n staff.







- Cymerodd y Swyddog Iaith Gymraeg ran mewn [fideo hyrwyddo dwyieithog](#) er mwyn annog siaradwyr Cymraeg i wneud cais am swydd Gweinyddwr Cymorth Busnes a oedd yn gofyn am ruglder yn y Gymraeg. Mae pwysigrwydd sgiliau Cymraeg hyderus yn hanfodol i'r rôl hon gan ei fod yn ymwneud â delio â phobl a pherchnogion busnesau lleol sy'n dewis i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â ni. Roedd y fideo hefyd yn cynnwys ein staff presennol a thrwy ddangos eu gallu Cymreig, roedd gan ddarpar ymgeiswyr well dealltwriaeth o lefel y Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer y swydd






- Roedd dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn 2024 yn cynnwys ein staff yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnwyd yn lleol ac yn cynnal digwyddiadau mewnol i helpu i hyrwyddo'r diwrnod diwylliannol Cymreig hwn gyda staff.

  Eleni darparwyd cennin Pedr sidan i holl staff eu gwisgo, gan ddod â ni at ein gilydd fel Gwasanaeth i'w ddathlu. Daeth criwiau a staff at ei gilydd hefyd i gymryd rhan ym mharêd Dewi Sant yng nghanol tref Wrecsam.

- Mae ymgysylltu â staff yn ystod digwyddiadau cenedlaethol Cymru yn rhan allweddol o hyrwyddo ein hymrwymiad tuag at ddewis iaith. Cynhaliwyd cwis Cymreig ar Ddydd Gŵyl Dewi i staff, a oedd yn cynnwys y cyfle i ennill hamper cynnyrch Cymreig. Mae hyn yn golygu ymgysylltu â staff ar draws y Gwasanaeth ac yn arwain at fwy o ymgysylltu â thudalennau cyfathrebu mewnol Cymraeg.




- Fel rhan o ddathliadau ehangach, cynhaliwyd dau weithdy staff i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith staff ac asiantaethau partner yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2024, un yn Wrecsam yn Nhŷ Pawb ac un ar Ynys Môn ym Mharc Gwyddoniaeth, Gaerwen. Roedd y gweithdai 'Tanio Sgwrs' hyn ar gael i staff ar hyd a lled y Gwasanaeth gan roi cyfle iddynt ddysgu mwy am y Gymraeg fel iaith fodern a ffyniannus mewn sfferau y tu hwnt i'r gweithle, fel technoleg.

  Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Stephen Rule (Doctor Cymraeg) sy'n awdur ac athro Cymraeg, yr Athro Llusern, diddanwr Cymraeg lleol sydd hefyd yn gweithio ym maes hyrwyddo'r Gymraeg yn y Ardal Sir y Fflint, a Sasha Wanasky, ymchwilydd o Brifysgol Bangor sy'n gweithio ar ddatblygiad adnabod lleferydd Cymraeg.

  These opportunities gave staff an insight into wider Welsh language initiatives as well as a chance to use Welsh with colleagues. Partner organisations attended and were able to share examples of how they promote the Welsh language within their organisations.








- Cyflwynir gwobr 'Cyfraniad i'r Gymraeg' yn ein Seremoni Gwobrau Cymunedol flynyddol i aelod o staff sydd wedi dangos ymroddiad i'r Gymraeg. Yn 2023, cyflwynwyd y wobr ar y cyd i aelodau staff o'r Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd. Dau o'n Hyrwyddwyr Gymraeg sydd wedi gweithio'n ddiwyd yn y gweithle i sicrhau bod staff yn gallu siarad Cymraeg â'i gilydd yn anffurfiol drwy gynnal cyfleoedd rhithiol o 'Paned a Sgwrs'.

- Un o'n prif ffyrdd o ymgysylltu â'r gymuned yw drwy gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach (SAWCs) yn eu cartrefi. Mae nifer y SAWCs a gynhaliwyd drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi ychydig yn ystod 2023-24 i 1,852, o'i gymharu â 1,802 yn 2022-23. Fodd bynnag, roedd gostyngiad yng nghanran yr archwiliadau Cymraeg fel cyfran

o'r holl archwiliadau i 9.3%. Gan gymharu, 10.1% oedd canran y SAWC's Cymraeg yn y flwyddyn flaenorol. O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, nodir bod y nifer sy'n manteisio ar y cynnig o SAWC yn Gymraeg yn gostwng yn raddol bob blwyddyn.

Er mwyn ymdrechu i wella ar nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd yn Gymraeg, mae ymdrechion targedu yn cael eu cyflwyno i hyrwyddo argaeledd SAWCs yn Gymraeg, gan roi sylw arbennig i dynnu sylw at ddewis iaith gyda'r asiantaethau sy'n gwneud atgyfeiriadau SAWC i'r gwasanaeth tân ac achub. Ar ein ffurflen atgyfeirio ar-lein, ychwanegwyd cwestiwn sy'n benodol i ddewis iaith ar gyfer yr ymweliad. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud gyda'n hasiantaethau partner i sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gynnig gan bob trydydd parti. Bydd staff sy'n weithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref hefyd yn derbyn mewnbwn ar y cynnig gweithredol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg fel rhan o'u sesiynau hyfforddi diwrnod datblygu, a ddarperir gan Swyddog Iaith Gymraeg.



- Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â chynhyrchwyr teledu o Gymru, Rondo, mewn cydweithrediad ar gyfer stori ar yr opera sebon poblogaidd 'Rownd a Rownd'. Staff Gweithredol a Chorfforaethol sydd wedi'u cynnwys mewn penodau fel rhan o'r stori, sy'n hanfodol ar gyfer rhannu negeseuon atal, hyrwyddo recriwtio, a dangos ein bod yn wasanaeth dwyieithog sydd wedi ymrwymo i godi proffil y Gymraeg yn fewnol gyda'n staff a gyda'r gymuned ehangach.

  Roedd hyn yn ddilyniant o bennod flaenorol a oedd yn cynnwys ein staff ar gyfer amlygu bwysigrwydd larymau mwg a pheryglon tanau cannwyll.

- Ymunodd aelodau o'n Hawdurdod Tân ac Achub â chynrychiolwyr ein Rhwydweithiau Staff a'r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth ar gyfer seminar yn canolbwyntio ar ddiwylliant ym mis Chwefror. Roedd hyn yn canolbwyntio ar dynnu sylw at y camau yr ydym yn eu cymryd i feithrin y diwylliant gorau posibl yn ein sefydliad a chodi ymwybyddiaeth o ble rydym yn fel Gwasanaeth o ran ein taith ddiwylliannol.

  Roedd cyfle i aelodau Awdurdod Tân ac Achub sy'n ein dwyn i gyfrif i roi gwybod i ni am unrhyw waith ychwanegol yr hoffent i ni ei wneud. Fel rhan o'r sesiwn, darparodd arweinwyr y Rhwydwaith Staff Gwasanaeth ddiweddariadau ar eu gwaith yn ogystal â chyflwyniad ar ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg - y mae pob un ohonynt yn hanfodol i'n diwylliant. Roedd hon yn ffordd wych o roi gwybod i Aelodau'r Awdurdod am sut ydym yn hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth a pha waith sy'n cael ei wneud.

# Datblygiad sgiliau'r Gymraeg

Mae'r Adran Hyfforddiant a Datblygu yn cadw cofnod o'r cyrsiau Cymraeg y mae ein staff yn eu mynychu a'r holl asesiadau y maent wedi'u cynnal ac yn cadw cofnodion o'r canlyniadau ar system recordio fewnol. Yn ogystal, mae cofnod o'r hyfforddiant penodol ar ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg sy'n cael ei gadw.

Yn dilyn asesiad iaith Gymraeg, cofnodir gallu'r staff wedyn ar y system rheoli gwybodaeth staff, iTrent a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth fewnol am staff fel ceisiadau am absenoldeb a thaflenni amser.

Mae cyrsiau Cymraeg bellach yn cael eu hwyluso'n fewnol trwy gydweithrediad â Choleg Cambria ac maent ar gael ar gais gan staff. O fewn cylch yr adroddiad hwn, bu i'r cwrs cyntaf o'r fath yma ddigwydd ym mis Ionawr 2024, gyda mwy wedi eu blaengynllunio ar gyfer Haf 2024.

Mae sesiynau datblygu'r Gymraeg gyda'r Swyddog Iaith Gymraeg hefyd ar gael hyd at Lefel 3 Cymraeg. Gall unrhyw aelod o staff y Gwasanaeth, neu adran/gwylfa gyfan, trefnu'r rhain ar sail grŵp neu 1-2-1.

# Edrych tua'r dyfodol

Mae'r blaenoriaethau canlynol wedi'u nodi fel cyfleoedd i ni wrth symud ymlaen:

- Ym mis Gorffennaf 2024 byddwn yn gweld y cyrsiau Cymraeg newydd ar gyfer Cymraeg lefel 2 a 3 ar gael yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl.
- Adnabod staff sydd â sgiliau Cymraeg wedi'u cofnodi ar Lefel 0 ac 1 a chysylltu â nhw, gan gynnig cymorth i ddatblygu ymhellach.
- Cyflwyno polisi newydd ar ddefnydd mewnol y Gymraeg i helpu staff i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.
- Mwy o gydnabyddiaeth i staff am lwyddiant mewn cyflawniad yn dilyn mynychu cyrsiau Cymraeg ac hyrwyddo neu llwyddo yn y Gymraeg
- Cysylltu ag asiantaethau allanol i sicrhau eu bod yn ystyried dewis iaith wrth wneud atgyfeiriadau ar gyfer archwiliadau diogel ac iach.